

POLISI DERBYN PRIFYSGOL ABERTAWE

A Rhagarweiniad

B Strwythurau a Phrosesau

- B1 Polisi Derbyn
- B2 Egwyddorion Derbyn Cyffredinol
- B3 Y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn
- B4 Ehangu Mynediad

C Meini Prawf Derbyn

- C1 Gofynion derbyn israddedigion amser llawn
- C2 Gofynion derbyn myfyrwyr ôl-raddedig
- C3 Rhaglenni rhan-amser a galwedigaethol
- C4 Gofynion Iaith Saesneg
- C5 Amodau derbyn eraill

Ch Y Broses Ymgeisio

- Ch1 Ceisiadau
- Ch2 Dethol
- Ch3 Y broses gwneud cynnig
- Ch4 Derbyn ein cynnig
- Ch5 Polisi canslo
- Ch6 Cadarnhau canlyniadau
- Ch7 Matriciwleiddio Ôl-raddedig

D Gwybodaeth i Ymgeiswyr mewn amgylchiadau penodol

- D1 Derbyn myfyrwyr dan oed
- D2 Ymgeiswyr ag anableddau
- D3 Ymgeiswyr â cholffarnau troseddol
- D4. Ymgeiswyr sy'n ceisio mynediad gohiriedig
- D5 Achredu Dysgu Blaenorol (APL)
- D6 Ymgeiswyr sy'n dymuno ail-ymgeisio
- D7 Ymgeiswyr mae angen teitheb arnynt i astudio yn y DU

Dd. Adborth, cwynion ac apeliadau

E. Gwybodaeth ffug neu gamarweiniol i gefnogi cais

F. Defnyddio data ymgeiswyr

Ff. Cyfrifoldeb ymgeiswyr yn y broses dderbyn

G. Ymwadiad, tynnu rhaglenni yn ôl a newid rhaglenni

A. RHAGARWEINIAD

Mae'r ddogfen hon yn pennu cod ymarfer y Brifysgol (gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau a gwybodaeth gysylltiedig) ar gyfer derbyn myfyrwyr i raglenni israddedig ac ôl-raddedig (wedi'u haddysgu ac ymchwil). Mae'n darparu gwybodaeth am awdurdod a chyfrifoldebau'r rhai sy'n rhan o'r broses ac yn amlinellu sut bydd unrhyw anghydfod yn cael ei ddatrys.

Penderfyniad y Brifysgol yn unig yw derbyn myfyrwyr i'r Brifysgol.

Y polisi pennaf ar dderbyn yw cefnogi Cenhadaeth ac Amcanion Strategol y Brifysgol (gellir gweld copi yn <http://www.swansea.ac.uk/pspu/media/Strategic-Plan.pdf>).

Bydd y Brifysgol bob amser yn ceisio gweithredu gweithdrefnau sy'n deg ac yn unol â chyfraith y Deyrnas Unedig, Siarter, Statudau, Ordinhadau a Rheoliadau'r Brifysgol, a rheolau cyfiawnder naturiol. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth benodol â deddfwriaeth sy'n ymwneud â gwahaniaethu (e.e. Deddf Cydraddoldeb 2010, y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio), y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd etc).

Mae gweithdrefnau derbyn y Brifysgol yn rhoi sylw dyledus hefyd i'r arweiniad mewn perthynas ag arfer da a gyhoeddir gan gyrff eraill, gan gynnwys Cod Ymarfer a Chefnogi Proffesiynoldeb mewn Derbyn yr Awdurdod Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a dogfennau a chyfarwyddebau a allai gael eu cyhoeddi gan y Llywodraeth, Cyngor Cyllido Addysg Uwch (Cymru) a'r Cynghorau Ymchwil.

B. Strwythurau a Phrosesau

B1. Polisi Derbyn

Adolygir Polisi Derbyn y Brifysgol bob blwyddyn gan y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn. Mae'r Polisi, fel y'i cymeradwywyd gan y Senedd, fel a ganlyn:

"Ein Polisi Derbyn yw annog cofrestriadau gan fyfyrwyr sydd â'r potensial i ennill ystod eang o sgiliau cymhleth a newydd; meistrolï corff helaeth o wybodaeth uwch ac, yn anad dim, mynd drwy gyfnod o ddatblygiad deallusol, trwyadl, sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster Prifysgol.

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau ac ymholiadau gan bobl waeth beth yw eu hoedran, eu tarddiad ethnig neu genedlaethol, eu hil, eu crefydd, eu rhyw, eu tueddfryd rhywiol, eu statws priodasol, eu cyfrifoldebau teuluol, eu hanabledd corfforol neu synhwyr, eu credoau a'u gweithgareddau gwleidyddol neu grefyddol, oni bai fod y gweithgareddau hynny'n anghyfreithlon neu'n groes i bolisïau'r Brifysgol.

Wrth ystyried addasrwydd ymgeisydd ar gyfer mynediad, bydd y bobl y dirprwywyd y dasg o argymell myfyrwyr i'w derbyn iddynt yn rhoi ystyriaeth ddyledus, fel y bo'n briodol, i berfformiad academiaidd blaenorol; profiad dysgu blaenorol; argaeledd (neu ddiffyg argaeledd) adnoddau a chyfleoedd dysgu addas; rhaglenni astudio cyfredol; asesiadau gan ganolwyr, seicolegwyr addysg neu ymarferwyr meddygol; cofnodion cyflawniadau; tystiolaeth o ymrwymiad a chymhelliant; ansawdd gwaith ysgrifenedig; perfformiad mewn cyfweiliad neu dan amodau arholiad. Bydd y detholwyr yn ystyried gallu'r ymgeisydd i gyfrannu at fywyd diwylliannol, chwaraeon neu gymdeithasol y Brifysgol a'r gymuned hefyd.

Rydym yn cydnabod, er ei bod yn bosib iawn y byddant yn bodloni rhai o'r meini prawf dethol neu bob un ohonynt, y gall fod yn rhaid gwrthod mynediad i rai ymgeiswyr oherwydd dwyster y gystadleuaeth am nifer cyfyngedig o leoedd."

B2. Egwyddorion Derbyn Cyffredinol

- dylid glynu wrth Bolisi Derbyn y Brifysgol;
- dylai'r gwaith o adolygu a gweithredu'r polisi hwn gael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn, dan gadeiryddiaeth y Deon Derbyn Myfyrwyr;
- y Cofrestrydd sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am dderbyn myfyrwyr;
- bydd yr Is-ganghellor yn dirprwyo awdurdod cyffredinol am faterion derbyn i Ddirprwy Is-ganghellor neu i aelod arall o'r uwch staff a fydd yn gyfrifol am sicrhau uniondeb y broses dderbyn a bod y Brifysgol yn cyflawni ei thargedau derbyn;
- dylid cytuno ar dargedau derbyn Colegau/Ysgolion gan Benaethiaid Ysgolion/Colegau, ar y cyd â'r Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol, ym mis Ionawr bob blwyddyn;
- dylai pennaeth pob Coleg/Ysgol benodi Tiwtoriaid Derbyn, sicrhau eu bod yn deall ac yn cefnogi Polisi Derbyn y Brifysgol a'r sgiliau a'r rhinweddau sy'n briodol i raglenni perthnasol, a'u bod yn cael amser, hyfforddiant ac adnoddau digonol i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol;
- dylai'r Pennaeth Derbyn benodi tîm derbyn proffesiynol a fydd yn gyfrifol am weithredu'r broses ddethol ar gyfer rhaglenni unigol, ar ran y Colegau/Ysgolion;
- cyfrifoldeb tiwtoriaid Derbyn a staff Marchnata, Recriwtio, Rhyngwladoli a Datblygu Colegau yw cydweithio â'r tîm derbyn i gytuno ar feini prawf dethol; cynghori ar benderfyniadau dethol priodol ac argymhell unrhyw newidiadau i'r polisi a'r weithdrefn dethol ar sail profiad;
- ni chaiff cynigion derbyn ffurfiol a datganiadau sy'n cadarnhau bod myfyriwr wedi'i dderbyn eu gwneud ond gan y Swyddog Derbyn perthnasol (fel y'i dirprwywyd gan y Cofrestrydd) neu drwy'r unigolyn hwnnw, neu gan staff priodol mewn digwyddiadau recriwtio tramor ar ôl ymgynghori â'r Swyddfa Derbyn;
- Y Pennaeth Derbyn, neu ei gynrychiolydd/ei chynrychiolydd, sydd â chyfrifoldeb gweinyddol am bob agwedd ar dderbyn ymgeiswyr yn ffurfiol, gan gynnwys cysylltu â chyrrff ac asiantaethau allanol sy'n ymwneud â derbyn myfyrwyr.

B3. Y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn

Prif ddiben y Pwyllgor Recriwtio a Derbyn yw goruchwylio derbyn myfyrwyr i'r Brifysgol a datblygu polisiau ar gyfer y Brifysgol o ran recriwtio a derbyn myfyrwyr newydd. Mae'r Pwyllgor Recriwtio a Derbyn yn adrodd i'r Senedd:

Mae prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys:

- Datblygu strategaethau i recriwtio myfyrwyr;
- Goruchwylio derbyniadau i'r Brifysgol;
- Adolygu'r polisi derbyn ac egwyddorion derbyn bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn galluogi'r Brifysgol i gyflawni ei nodau;
- Monitro derbyn myfyrwyr i sicrhau bod polisi ac egwyddorion derbyn yn cael eu gweithredu'n gywir;
- Sicrhau bod y Tiwtoriaid Derbyn yn cael eu hyfforddi;

- Annog cysondeb wrth wneud penderfyniadau ar dderbyn a sicrhau bod hyn yn rhoi sylw i bolisiau cyfle cyfartal sy'n gysylltiedig â myfyrwyr perthnasol, e.e. anabled, cydraddoldeb hiliol;
- Adolygu a datblygu polisiau a gweithdrefnau derbyn â'r nod o ehangu cyfranogiad ar y cyd ag Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe;
- Cynghori'r Uned Cynllunio a Phrosiectau Strategol ar bennu targedau derbyn myfyrwyr newydd y Brifysgol a thargedau penodol ar gyfer pob Ysgol/Coleg o fewn y Brifysgol.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Ysgol/Coleg, o Wasanaethau Proffesiynol perthnasol ac o'r Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd, y Bwrdd Rheoliadau ac Achosion Academaidd a'r Bwrdd Rheoli Rhaglenni; ynghyd â chynrychiolwyr myfyrwyr.

B4. Ehangu Mynediad

Fel sawl sefydliad arall, rydym yn gweithio i gynyddu cyfranogiad ac ehangu mynediad i addysg uwch gan fyfyrwyr heb brofiad teuluol blaenorol o addysg brifysgol a chan grwpiau dan anfantais. Mae pob cais yn parhau i gael ei ystyried yn ôl ei haeddiant i sicrhau tegwch a chysondeb.

a. Prifysgol Haf Ymgynraedd Yn Ehangach De-orllewin Cymru

Gallai cwblhau'r Brifysgol Haf yn llwyddiannus ddarparu cynnig gostyngol i ymgeiswyr.

DS Dylai ymgeiswyr sydd wedi cwblhau compact tebyg neu ysgol haf gyda phrifysgol arall anfon y manylion llawn at y Swyddfa Dderbyn i asesu a fyddent yn gymwys am yr un gostyngiad mewn pwyntiau.

b. Ymadawyr Gofal

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i ddarparu cymorth ar gyfer plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal sydd am fynd ymlaen i addysg uwch. Mae'r pecyn cymorth i fyfyrwyr sydd wedi bod mewn gofal am fwy na thri mis ac sy'n derbyn "Cynllun Llwybr" Ymadawyr Gofal yn cynnwys cymorth ariannol i fynychu diwrnodau agored neu gyfweiliadau; blaenoriaeth wrth ddyfarnu grantiau gwerth hyd at £1000 y flwyddyn gan y Gronfa Ariannol Wrth Gefn, a gallent gael cynnig gostyngol. Mae rhagor o fanylion ar gael ar-lein:

<http://www.swan.ac.uk/study/current/StudentSupportServices/CareLeaversSupportPackage/>

C. Meini Prawf ar gyfer Derbyn

C1. Gofynion derbyn myfyrwyr israddedig

Er mwyn dechrau ar gynllun astudio amser llawn i israddedigion, rhaid i ddarpar fyfyrwyr fodloni gofyniad rhaglen (a bennir gan yr adran sy'n derbyn ac sy'n ymddangos yn y nodiadau ar gyfer pynciau unigol yn y Prosbectws i Israddedigion ac ar-lein) a rhaid eu bod wedi ennill TGAU Saesneg neu Gymraeg, Gradd C neu'n uwch, neu gymhwyster cyfwerth.

Fel rheol, mynegir gofynion rhaglenni penodol i fyfyrwyr israddedig ar sail tair Safon Uwch TAG (gellir gofyn am bynciau penodol) ar raddau penodol. Fodd bynnag, bydd y Brifysgol yn ystyried ystod eang o gymwysterau eraill gan gynnwys Bagloriaethau Ewropeaidd, Rhyngwladol a Chymreig, Uwch Ddiploma, Irish Leaving Certificate, SQA Advanced Highers, BTEC, Diploma Mynediad i Addysg Uwch ac ystod o gymwysterau rhyngwladol. Mae tabl sy'n dangos i ba raddau mae'r cymwysterau hyn yn

dderbyniol ar gael yn y prospectws israddedig ac ar-lein yn <http://www.swansea.ac.uk/undergraduate/courses/entry-requirements/>

Yn ogystal â'r uchod, gall Colegau a rhaglenni unigol yn y Brifysgol bennu isafswm gofynion mynediad o ran lefelau cyrhaeddiad mewn TGAU neu gymhwyster cyfwerth, yn enwedig mewn Mathemateg. Caiff yr wybodaeth hon ei nodi'n glir yn y gofynion mynediad ar gyfer rhaglenni penodol, ar-lein ac yn y nodiadau yn y prospectws.

Mewn achosion arbennig, gellir esgusodi ymgeiswyr rhag bodloni gofyniad y rhaglen os argymhellir hynny gan yr adran ar y sail eu bod wedi cyrraedd y safon mynediad angenrheidiol i'w galluogi i ddechrau'r rhaglen gradd maent wedi gwneud cais amdani. Fel rheol, byddai hyn yn cael ei asesu trwy gyfweiliad neu asesu darn o waith ysgrifenedig.

C2. Gofynion mynediad ôl-raddedig

Mae tudalennau gwe cyrsiau unigol yn manylu ar y gofynion mynediad ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig, ond y gofynion *arferol* yw cymhwyster gradd Baglor (cyfwerth ag o leiaf gradd gyffredin y DU) gan sefydliad 'cymeradwy' (fel y'i diffinnir gan NARIC UK) neu gymeradwyaeth flaenorol gan Banel Matriciweiddio'r Brifysgol gyda:

- Gradd ail ddosbarth is (2.2) neu gyfwerth ar gyfer mynediad i radd Meistr a Addysgir neu radd Meistr drwy Ymchwil (gan gynnwys MRes)
- Ail ddosbarth uwch (2.1) neu gyfwerth ar gyfer mynediad i raglen ymchwil sy'n arwain at radd MPhil/MD/PhD/EngD

Yn ogystal:

- Mae rhai colegau'n gofyn bod ymgeiswyr am gyrsiau MPhil/MD/EngD wedi cwblhau gradd Meistr yn llwyddiannus cyn dechrau eu rhaglen ymchwil
- Yn achos rhai rhaglenni, bydd angen bodloni gofynion corff proffesiynol neu statudol yn ogystal â gofynion safonol y Brifysgol.

Os nad oes gan ymgeiswyr ôl-raddedig y cymwysterau uchod, yn lle hynny, gallant fodloni gofynion mynediad a matriciweiddio'r Brifysgol fel a ganlyn:

- (i) Gradd cyn-feistr gan sefydliad cymeradwy i dderbyn i raglen astudio a addysgir gytunedig; neu
- (ii) Ceisiadau gan ymgeiswyr heb radd (yn briodol i gynlluniau Meistr a Addysgir, Meistr drwy Ymchwil ac MRes yn unig): rhaid i ymgeiswyr nad oes ganddynt radd baglor feddu ar brofiad gwaith ôl-gymhwyster perthnasol sylweddol, neu brofiad arall y mae'r Detholwyr Derbyn wedi asesu ei fod yn briodol i dderbyn yr ymgeisydd i'r rhaglen berthnasol. Fel canllaw, gallai hyn fod o leiaf tair blynedd o brofiad amser llawn os mai Safon Uwch yn yr ysgol yw'r cymwysterau uchaf, neu bum mlynedd os mai TGAU yw'r cymwysterau uchaf. Ystyrir perthnasedd y profiad i'r rhaglen dan sylw hefyd; neu
- (iii) Drwy argymhelliad a gyflwynwyd i'r Panel Matriciweiddio, ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni gofynion matriciweiddio arferol.

C3. Gofynion Mynediad ar gyfer rhaglenni galwedigaethol a phroffesiynol rhan-amser

Ar gyfer nifer o Fodiwlau Achrededig a Rhaglenni Llwybr sy'n cael eu cynnig gan yr Adran Addysg Barhaus i Oedolion (AABO) ym Mhrifysgol Abertawe, nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol, fodd bynnag, mae rhai amodau'n berthnasol yn achos:

- Gradd ran-amser - gellir galw myfyrwyr am gyfweiliad a gofyn iddynt ddarparu datganiad personol ysgrifenedig i gefnogi eu cais
- Rhaglenni Tystysgrif a Diploma TG – bydd angen i fyfyrwyr feddu ar sgiliau TG a rhaid eu bod wedi cwblhau modiwlau lefel achrededig yn llwyddiannus
- Rhaglenni Tystysgrif Cwnsela – bydd angen i fyfyrwyr fod wedi cwblhau modiwlau lefel achrededig yn llwyddiannus a mynychu cyfweiliad
- Diploma Cwnsela – gofynnir i fyfyrwyr ddarparu geirdaon, pasio archwiliad datgeliad manwl trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cael cyfweiliad a dangos addasrwydd i ymarfer.

C4. Gofynion mynediad iaith Saesneg

Mae'n rhaid i'r holl fyfyrwyr ddangos eu bod wedi cyrraedd safon Saesneg ysgrifenedig a llafar ofynnol cyn dechrau eu rhaglenni. Gall myfyrwyr nad Saesneg yw eu hiaith frodorol ddangos eu bod wedi bodloni'r gofyniad iaith Saesneg mewn dwy ffordd:

- Drwy brawf iaith Saesneg cymeradwy neu un o'r cymwysterau amgen a restrir yn: www.swansea.ac.uk/international/students/requirements/english-requirements
- Cwblhau Rhaglen Iaith Saesneg Gyn-sesiynol yn llwyddiannus yng Ngwasanaethau Hyfforddiant Iaith Saesneg Abertawe (ELTS) ar y lefel ofynnol cyn dechrau'r rhaglen academaidd. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: www.swansea.ac.uk/elts

Er y byddai'r profion a'r cymwysterau uchod yn caniatáu i fyfyrwyr gael eu derbyn i'r Brifysgol, dylai ymgeiswyr rhyngwladol ddisgwyl sefyll prawf byr o'u hyfedredd Saesneg adeg cofrestru, er mwyn asesu a fyddai cymorth ychwanegol am ddim yn yr iaith Saesneg fod o fudd iddynt, ac i helpu i lywio'r polisi iaith Saesneg ar dderbynioldeb profion iaith Saesneg amgen.

Am ragor o fanylion, darllenwch y polisi llawn ynghylch Gofynion Mynediad Iaith Saesneg yn: www.swansea.ac.uk/admissions

C5. Amodau derbyn eraill

Ar gyfer rhaglenni sy'n cynnwys rhyngweithio â phlant a/neu oedolion diamddiffyn, mae'r Brifysgol yn gofyn i ymgeiswyr gwblhau archwiliad datgeliad manwl yn foddhaol trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – y Swyddfa Cofnodion Troseddol gynt.

Yn ogystal, gofynnwn i ymgeiswyr am rai cyrsiau galwedigaethol neu broffesiynol (fel Nyrso, Bydwreigiaeth a Meddygaeth) ddangos "addasrwydd meddygol i ymarfer" cyn iddynt gael eu derbyn.

Mae'r gofynion mynediad manwl ar gyfer pob rhaglen (yn y prosiectws perthnasol neu ar dudalennau gwe'r rhaglen) yn nodi a oes unrhyw rai o'r amodau hyn yn berthnasol. Bydd llythyr cynnig lle hefyd yn cynghori ymgeiswyr ar yr amodau ychwanegol hyn.

Ch. Y Broses Ymgeisio

Mae Prifysgol Abertawe wedi ymrwymo i drin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ac i sicrhau y caiff y cyhoedd ddewis cyfathrebu â'r Brifysgol yn Gymraeg neu yn Saesneg a dewis ym mha iaith yr hoffent dderbyn gwasanaeth. Felly, mae croeso i ddarpar fyfyrwyr wneud cais am le naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Yn ogystal, gofynnir i'r holl ddarpar fyfyrwyr nodi a hoffent dderbyn cyfathrebiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg, a chyfathrebir â nhw yn yr iaith honno wedi hynny. Wrth gofrestru, gofynnir i fyfyrwyr gadarnhau eu dewis iaith at ddiben cyfathrebu yn y dyfodol.

Ch1. Ceisiadau

Mae dau brif lwybr ymgeisio ar gyfer y rhan fwyaf o raglenni'r Brifysgol:

1. UCAS (Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau) ar gyfer myfyrwyr o'r DU/UE sy'n gwneud cais am raglenni gradd amser lawn: www.ucas.com
2. Yn uniongyrchol i'r Brifysgol: www.swansea.ac.uk/international/students/apply/ontrack ar gyfer ymgeiswyr am raglenni ôl-raddedig a cheisiadau rhyngwladol am raglenni israddedig.

Nid yw hyn yn berthnasol i'r canlynol:

- Cwrs Ymarfer y Gyfraith (LPC) neu'r Diploma yn y Gyfraith i Raddedigion (GDL): dylid gwneud ceisiadau drwy'r Central Law Applications Board (LawCAB): www.lawcabs.ac.uk
- MSc mewn Mecaneg Gyfrifiadol (Erasmus Mundi): rhaid cyflwyno ceisiadau i'n sefydliad partner, Universitat Politecnica Catalunya yn Barcelona, Sbaen
- MSc mewn Gwaith Cymdeithasol: dylid cyflwyno ceisiadau drwy UCAS www.ucas.com
- MA mewn Newyddiaduraeth, Y Cyfryngau a Globaleiddio (Erasmus Mundi): dylid cyflwyno ceisiadau drwy ein sefydliad partner, Prifysgol Aarhus yn Nenmarc

Rhoddir ystyriaeth gyfartal i'r holl geisiadau sy'n cael eu derbyn erbyn y dyddiad terfyn perthnasol a gyhoeddwyd (e.e. 15 Hydref ar gyfer Meddygaeth a 15 Ionawr ar gyfer y rhan fwyaf o raglenni israddedig eraill).

Os daw cais i law ar ôl y dyddiad cau perthnasol ac mae'r cwrs yn llawn, gallai gael ei wrthod neu ei ystyried ar gyfer y cyfnod derbyn nesaf.

Ch2. Dethol

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddarparu system dderbyn deg. Ystyrir pob ymgeisydd am raglen yn ôl yr un meini prawf derbyn. Lle mae nifer y lleoedd yn gyfyngedig, cynigiwn leoedd i'r ymgeiswyr hynny sy'n bodloni'n meini prawf dethol ac y mae'r detholwyr derbyniadau'n barnu bod ganddynt y potensial mwyaf i elwa ar eu rhaglen ddethol.

Mae'r dulliau asesu ceisiadau'n amrywio rhwng rhaglenni a gallant gynnwys cyflawniad academiaidd blaenorol a disgwylidig, geirdaon, datganiadau personol neu gefnogol, cyfweiliad, profion gallu a chynigion ymchwil. Gallai'r detholwyr hefyd ystyried unrhyw amgylchiadau unigol eithriadol neu rwystrau i ddysgu e.e. afiechydon estynedig, lle mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys mewn cais.

Lle mae angen cyfweiliadau, profion neu waith ysgrifenedig ychwanegol fel rhan o'u meini prawf dethol ar raglenni, byddwn yn gwneud hyn yn amlwg i ymgeiswyr ar dudalennau'r cyrsiau perthnasol yn y prospectws ac ar-lein. Bydd hyn hefyd yn cynnwys manylion am y broses ddethol a'r meini prawf a ddefnyddir i ddethol ymgeiswyr llwyddiannus.

Ein nod yw gwneud penderfyniadau neu wahodd ymgeiswyr i gyfweiliad ymhen 3 wythnos i dderbyn y cais (DS: ystyrir ceisiadau am Feddygaeth ar ôl y dyddiad cau am geisiadau ac fel rheol anfonir gwahoddiadau i gyfweiliad yng nghanol mis Rhagfyr).

Ch3. Y broses gwneud cynnig

Os yw ymgeisydd wedi cyflwyno cais drwy UCAS, bydd y Brifysgol yn cyfleu ein penderfyniad trwy sianelau swyddogol UCAS, ond caiff y cynnig ffurfiol, gan gynnwys yr amodau a thelerau llawn, ei anfon yn uniongyrchol at yr ymgeisydd.

Lle mae ymgeisydd wedi gwneud cais yn uniongyrchol i'r Brifysgol, bydd penderfyniad ffurfiol yn cael ei wneud a'i gyfleu'n uniongyrchol i'r ymgeisydd gan y staff Derbyn perthnasol.

Bydd cynnig, amodol neu ddiamod, yn cael ei wneud yn ddidwyll gan ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd ac/neu'r canolwr ar adeg y cais. Mewn rhai amgylchiadau, gallai cynnig fod yn amodol ar ofynion heb fod yn academiaidd e.e. archwiliad cofnodion troseddol trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr ystyrir ei fod yn foddhaol.

Ch4. Derbyn cynnig lle

Gan ddibynnu ar y dull cyflwyno cais, dylai ymgeisydd dderbyn ei gynnig fel a ganlyn:

- Ceisiadau drwy UCAS - dylid derbyn y cynnig drwy UCAS, naill ai fel dewis cadarn (cyntaf) neu yswiriant (wrth gefn).
- Ceisiadau uniongyrchol neu drwy Law CABS - dylid derbyn cynigion yn uniongyrchol gyda'r Brifysgol fel mae'r llythyr cynnig yn ei nodi.

Drwy dderbyn cynnig o le, bydd ymgeiswyr yn ymrwmo i gontract gyda Phrifysgol Abertawe, ar sail yr amodau a thelerau a nodir yn y cynnig ac yn Amodau a Thelerau Prifysgol Abertawe. Mae manylion llawn ar gael yn: www.swansea.ac.uk/admissions

Ch5. Polisi Canslo

Ar ôl derbyn cynnig lle, gall ymgeiswyr ganslo eu derbyniad o fewn 14 diwrnod heb roi rheswm; fel arfer, caiff unrhyw flaendal, ffioedd gweinyddu neu ffioedd eraill a dalwyd ganddynt eu had-dalu'n llawn. Am ragor o fanylion, ewch i www.swansea.ac.uk/admissions

Ch6. Cadarnhau canlyniadau

Mae 'cadarnhau' yn cyfeirio at y cyfnod bob blwyddyn pan fydd y Brifysgol yn derbyn canlyniadau arholiadau a chanlyniadau eraill ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi derbyn cynigion Amodol. Mae lle ymgeiswyr sy'n bodloni gofynion eu cynnig Amodol yn cael ei gadarnhau'n awtomatig.

Adolygir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd wedi methu cyflawni'r graddau angenrheidiol yn union, a gallai eu lleoedd gael eu cadarnhau os bydd lle ar gael, ond ni ellir addo y bydd hyn yn bosib.

Rhaid bodloni holl amodau'r cynigion ar gyfer rhaglenni israddedig yn llawn erbyn canol dydd ar 31 Awst y flwyddyn dderbyn i sicrhau lle. Os bodlonir yr amodau ar ôl y dyddiad hwn, efallai y gallwn gadarnhau lle ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae'r weithdrefn Gadarnhau ar gyfer y rhan fwyaf o ymgeiswyr israddedig yn cynnwys derbyn a phrosesu data electronig gan UCAS a fydd, yn ei dro, yn derbyn ac yn prosesu data canlyniadau electronig gan y byrddau arholi. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddiwygio'r cynnig yng ngoleuni gwall electronig.

Mae'r weithdrefn Gadarnhau ar gyfer ymgeiswyr ôl-raddedig a rhyngwladol yn cynnwys ysgrifennu at sefydliadau blaenorol i gael manylion y radd neu ganlyniadau eraill, gwirio canlyniadau'r prawf laith Saesneg trwy wasanaethau gwirio ar-lein ac ysgrifennu at ganolwyr. Os nad yw'r wybodaeth ar gael yn uniongyrchol, cysylltir ag ymgeiswyr i'w hatgoffa o'r amodau sydd heb eu bodloni eto ac i ofyn bod y dogfennau perthnasol yn cael eu cyflwyno.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno eu tystysgrifau gwreiddiol i'w harchwilio wrth gofrestru lle na fu modd i'r Brifysgol gael cadarnhad swyddogol o'r dyfarniad gan y corff neu'r sefydliad dyfarnu.

Ch7. Matriciwleiddio Ôl-raddedig

Matriciwleiddio yw derbyn ymgeiswyr yn ffurfiol i raglen astudio sy'n arwain at radd neu ddyfarniad academiaidd arall y Brifysgol. Rhaid i ymgeiswyr sydd heb fatriciwleiddio'n flaenorol ddarparu tystiolaeth o'u gradd neu gymhwyster cyfatebol ar ffurf tystysgrif wreiddiol neu ddatganiad swyddogol gan y sefydliad dyfarnu neu gorff arall. Oni bai fod ymgeisydd yn matriciwleiddio, ni fydd yn gymwys i'w arholi a gallai gael ei atal gan y Brifysgol, rhag parhau â'r ymgeisiaeth ar adeg briodol yn y flwyddyn academiaidd.

D. Gwybodaeth i ymgeiswyr mewn amgylchiadau penodol

D1. Derbyn myfyrwyr dan oed

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob oed, a bydd y ceisiadau'n cael eu hystyried yn ôl eu teilyngdod unigol. Os cynigir lle i ymgeisydd a fydd dan 18 oed ar adeg cofrestru, gallai fod angen cydymffurfio â rhai gweithdrefnau deddfwriaethol er mwyn cyflawni dyletswydd gofal y Brifysgol i'r myfyrwyr.

Yn achos ymgeiswyr rhwng 16 a 18 oed adeg cofrestru, bydd yn ofynnol i riant neu warcheidwad yr ymgeisydd lofnodi datganiad pan gynigir lle. Caiff ymgeiswyr a fydd dan 16 oed adeg cofrestru eu hystyried ar sail unigol, ac mae'n debygol y bydd rhaid iddynt fod yng nghwmni riant neu warcheidwad wrth astudio.

Mae polisi llawn y Brifysgol ar Ddiogelu Grwpiau Diamddiffyn, sy'n cynnwys y polisi ar dderbyn myfyrwyr dan oed, i'w weld ar-lein yn:

<http://www.swansea.ac.uk/media/Safeguarding%20Vulnerable%20Groups%20Policy%202013.pdf>

D2. Ymgeiswyr ag anableddau

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr ag anableddau a/neu anghenion cymorth ychwanegol. Rydym yn annog ymgeiswyr i gysylltu â'r Swyddfa Anableddau neu'r Swyddfa Lles cyn gynted â phosib i holi pa fath o gymorth a allai fod ar gael iddynt a pha wybodaeth mae angen iddynt ei hanfon atom ni.

Bydd ymgeiswyr sy'n datgan anabledd yn cael eu hystyried yn unol â'r un egwyddorion ag ymgeiswyr eraill. Yna, pan fydd cynnig wedi'i wneud, bydd Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr yn anfon holiadur at ymgeiswyr yn gofyn am natur eu cyflwr ac unrhyw anghenion cymorth. Diben hyn yw sicrhau bod y Brifysgol yn gallu rhoi unrhyw gymorth ychwanegol ar waith a gwneud unrhyw addasiadau rhesymol a allai fod yn ofynnol yn brydlon ar ddechrau'r rhaglen. Os bydd ymgeiswyr yn dewis peidio â dweud wrthym am eu hanabledd, neu'n dewis darparu'r wybodaeth ar fyr rybudd cyn dyddiad dechrau eu rhaglen, neu os nad ydynt yn darparu gwybodaeth lawn amdano cyn eu rhaglen astudio, byddwn yn gwneud ein gorau i'w helpu, ond mae'n bosib na fyddwn yn gallu darparu'r ystod lawn o gymorth a allai fod ar gael fel arall, neu gallai fod oedi o ran darparu'r cymorth hwnnw.

Mae nifer bach o raglenni proffesiynol fel Nyrzio, Meddygaeth a Gwaith Cymdeithasol yn darparu cymhwyster i ymarfer yn y proffesiwn perthnasol. O ganlyniad, mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i'r cyhoedd, cyflogwyr a'r proffesiynau i sicrhau y gall darpar fyfyrwyr gyflawni'r deiliannau dysgu a bennwyd gan y cyrff proffesiynol a statudol a'u bod yn "addas i ymarfer". Yn yr achosion hyn, byddai cynnig yn cael ei wneud yn "amodol ar gymeradwyaeth y Panel Addasrwydd i Ymarfer". Gellir dod o hyd i fanylion llawn ar y tudalennau gwe ar gyfer y rhaglenni perthnasol.

Dylai myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o'r tu allan i'r DU sylwi nad yw myfyrwyr rhyngwladol yn gymwys am Lwfans Myfyrwyr Anabl y DU. Cynghorir myfyrwyr i gysylltu â'u Llywodraeth gartref am wybodaeth am unrhyw gyllid allai fod ar gael iddynt fel myfyriwr anabl. Dylai myfyrwyr ar raglenni cyfnewid geisio cyllid gan eu sefydliad 'cartref'.

Mae myfyrwyr ar raglenni astudio byr hefyd yn annhebygol o dderbyn cyllid Lwfans Myfyrwyr Anabl.

Mae'r Swyddfa Anableddau/Gwasanaeth Lles yn cynghori myfyrwyr Rhyngwladol a myfyrwyr ar raglenni astudio byr yn gryf i gysylltu â gwasanaeth perthnasol y Brifysgol cyn gwneud cais ffurfiol i'r Brifysgol. Bydd hyn yn rhoi amser i fyfyrwyr archwilio'n llawn a deall y cymorth y bydd ei angen arnynt ac i ba raddau y gall y Brifysgol ei ddarparu.

D3. Ymgeiswyr â cholffarnau troseddol

Mae Prifysgol Abertawe'n ymdrechu i hyrwyddo cyfle cyfartal i'r holl ymgeiswyr â'r cyfuniad iawn o ddoniau, sgiliau a photensial. Felly, mae Prifysgol Abertawe'n croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol.

Rydym yn gofyn i ymgeiswyr ddatgelu manylion troseddau perthnasol blaenorol fel y gall y Brifysgol asesu a yw hyn yn debygol o effeithio - ac i ba raddau - ar ddiogelwch a lles staff, myfyrwyr, ymwelwyr ac eraill sy'n defnyddio ein gwasanaethau neu ein cyfleusterau a/neu ar addasrwydd rhywun ar gyfer rhaglen. Ni fydd collfarn o reidrwydd yn gwahardd ymgeiswyr rhag cael lle ar y rhaglen o'u dewis. Bydd hyn yn dibynnu ar y rhaglen ac amgylchiadau a chefnidir y drosedd neu'r troseddau.

Gofynnir i ymgeiswyr roi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw gollfarnau troseddol a allai fod ganddynt ar wahanol adegau yn ystod y broses dderbyn, gan ddibynnu ar natur y rhaglen astudio:

D3.1 Rhaglenni Addysg/Astudiaethau Plentyndod, Iechyd, Meddygaeth a Gwaith Cymdeithasol

Gofynnir i ymgeiswyr am raglenni sy'n golygu gweithio gyda phlant a/neu oedolion diamddiffyn ddatgan pob collfarn neu rybuddiad (llafar neu ysgrifenedig), ar eu ffurflen gais, hyd yn oed rhai y tybir eu bod wedi darfod yn ôl y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr; ac eithrio'r rhai a fyddai'n cael eu 'hidlo' dan ganllawiau 2013 y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (am ragor o wybodaeth am gollfarnau 'wedi'u hidlo', gweler: <http://hub.unlock.org.uk/wp-content/uploads/What-will-be-filtered-by-the-DBS.pdf>)

Pe bai ymgeisydd yn llwyddiannus mewn cyfweiliad ar ôl datgelu collfarn, byddai unrhyw gynnig yn amodol ar asesiad o addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y rhaglen gan y "Panel Addasrwydd i Ymarfer". Hefyd, byddai'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau gwiriad uwch o gofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

D3.2 Rhaglenni Eraill

Ar ôl derbyn cynnig o le, gofynnir i ymgeiswyr am raglenni eraill ddatgelu unrhyw gollfarnau eraill 'heb ddarfod' y tybir eu bod yn 'berthnasol'.

Collfarnau **perthnasol** yw'r rhai sydd â goblygiadau ar gyfer dyletswydd prifysgolion i ofalu am ddiogelwch eu myfyrwyr, eu staff a'u hymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys collfarnau sy'n ymwneud â thrais, troseddau rhywiol a chyflenwi cyffuriau, ynghyd â throseddau sy'n ymwneud â drylliau, llosgi'n fwriadol a therfysgaeth.

Nid oes rhaid i ymgeiswyr ddweud wrthym am gollfarnau '**sydd wedi darfod**' yn ôl y diffiniad yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

Os bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r achos, bydd y Pennaeth Derbyn yn cyflwyno'r achos ger bron Panel Collfarnau Troseddol y Brifysgol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o uwch staff y Brifysgol o Wasanaethau Myfyrwyr, Gwasanaethau Academaidd a Derbyniadau ar gyfer cymorth ysgrifenyddol.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd, bydd y panel yn asesu'r risg i fyfyrwyr eraill, staff ac eraill y gall yr ymgeisydd fod mewn cysylltiad â nhw ac eiddo'r Brifysgol, gan ystyried:

- Natur y drosedd neu'r troseddau ac a yw hyn yn berthnasol i'r rhaglen astudio
- Faint o amser yn ôl y cyflawnwyd y drosedd neu'r troseddau
- Os oes mwy nag un drosedd, a oedd pob un yn drosedd wahanol neu'n rhan o gyfres o ddigwyddiadau tebyg
- Argymhellion unrhyw ganolwyr ac unrhyw amgylchiadau lliniarol ac amgylchiadau gwaethygu

Gan ddibynnu ar yr asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gollfarn, gall y Brifysgol:

- Cadarnhau'r lle ar y rhaglen, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn bodloni unrhyw amodau a bennir yn y cynnig;
- Atodi amodau ychwanegol ar gyfer derbyn/cofrestru'r ymgeisydd ar y rhaglen; neu
- Canslo'r cynnig a pheidio â derbyn yr ymgeisydd.

Dylai unrhyw ymgeisydd sy'n derbyn rhybuddiad neu gollfarn ar ôl gwneud cais a chyn y dyddiad cofrestru yn y Brifysgol roi gwybod i'r Swyddfa Derbyn yn ddi-oed. Os caiff myfyriwr gollfarn ar ôl cofrestru, dylai roi gwybod i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Academaidd ar unwaith.

Am ragor o fanylion, darllenwch y polisi llawn ar Recriwtio Myfyrwyr â cholffarnau troseddol yn: www.swansea.ac.uk/admissions

D4. Ymgeiswyr sy'n ceisio mynediad gohiriedig

Ar y cyfan, mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n bwriadu gohirio'u mynediad am flwyddyn (blwyddyn i ffwrdd). Fodd bynnag, ceir nifer fach o raglenni nad ydynt yn caniatáu mynediad gohiriedig oherwydd nifer gyfyngedig y lleoedd sydd ar gael. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys Meddygaeth a Bydwreigiaeth. Cynghorir ymgeiswyr i edrych ar yr wybodaeth am y rhaglenni ar-lein i gadarnhau a yw blynyddoedd i ffwrdd yn dderbyniol cyn cyflwyno cais neu cyn gofyn am fynediad gohiriedig.

Fel arfer, byddwn yn ystyried dau gais am fynediad gohiriedig. Os bydd ymgeiswyr yn dymuno gohirio am drydydd tro, fel rheol gofynnir iddynt gyflwyno cais newydd.

D5. Achredu Dysgu Blaenorol (APL)

Dylai ymgeiswyr israddedig ac ôl-raddedig a addysgir sy'n dymuno i'w dysgu blaenorol gael ei ystyried am eithriad rhannol o'u gradd neu eu rhaglen ôl-raddedig gysylltu â'r Detholwr Derbyn perthnasol yn y lle cyntaf.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod 3 math o ddysgu blaenorol:

- Trosglwyddo Credydau** - lle dyfarnwyd credydau neu gymhwyster gan sefydliad addysg uwch yn y DU fel rhan o gymhwyster ffurfiol neu gan sefydliad y tu allan i'r DU fel rhan o gymhwyster cyfwerth. Ni ellir trosglwyddo credydau oni bai fod y dysgu blaenorol yn ymdrin â'r un maes pwnc, a rhaid ei fod wedi'i gwblhau yn ystod y 5 mlynedd flaenorol;
- Achredu dysgu tystysgrifedig blaenorol (APcL)** - dysgu blaenorol (megis dyfarniadau datblygiad proffesiynol neu ddyfarniadau sy'n seiliedig ar gyflogaeth) sydd ar lefel addysg uwch ond nad yw wedi arwain at ddyfarnu credydau neu gymhwyster addysg uwch;
- Achredu Dysgu Blaenorol trwy Brofiad (APeL)** - lle mae dysgu a gyflawnir drwy brofiad yn cael ei asesu a'i gydnabod.

Yn achos ceisiadau am APcL ac APeL, codir ffi weinyddol a fydd gyfwerth â 10% o ffi unrhyw fodiwl sy'n cael ei ystyried am APL.

Fel arfer, nid oes modd ennill mwy na thraean cyfanswm credydau'r rhaglen drwy Achredu Dysgu Blaenorol (e.e. 120 o gredydau gradd baglor 3 blynedd a 60 o gredydau rhaglen MSc/MA). Fodd bynnag, mae rhai eithriadau'n berthnasol i raglenni unigol megis Cwrs Ymarfer y Gyfraith.

Am ragor o fanylion, darllenwch y polisi llawn ynghylch Achredu Dysgu Blaenorol yn: www.swansea.ac.uk/admissions

D6. Ymgeiswyr sy'n dymuno ail-wneud cais

Y Detholwyr Derbyn fydd yn penderfynu a ddylid ystyried ail gais ac ni ddylid rhagdybio y byddant yn ystyried ail gais bob tro. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ystyried gwybodaeth o geisiadau blaenorol (gan gynnwys gohebiaeth, datganiadau personol, geirdaon a pherfformiad mewn cyfweiliad), neu wybodaeth o unrhyw gyfnod cofrestru blaenorol yn y Brifysgol, wrth asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer rhaglen.

Dylai ymgeiswyr sydd wedi methu rhaglen astudiaeth yn flaenorol ym Mhrifysgol Abertawe ac sy'n dymuno ail-wneud cais gyflwyno cais yn y ffordd arferol (trwy UCAS neu ar-lein fel y bo'n briodol). Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan y Detholwyr Derbyniadau, gan ystyried cymwysterau wedi'u cwblhau a gwybodaeth o'r cyfnod astudio blaenorol. Ni fyddai ymgeiswyr yn cael eu hystyried am yr un maes astudio neu faes astudio perthynol ond mewn amgylchiadau eithriadol, a byddai angen cymeradwyaeth y Deon Derbyn Myfyrwyr neu enwebai.

D7. Ymgeiswyr mae angen teitheb arnynt i astudio yn y DU

I allu astudio yn y DU, bydd angen teitheb ar y rhan fwyaf o ymgeiswyr rhyngwladol, ynghyd â chadarnhad o'u cynnig o le. Cyn i ni ddarparu'r Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS), bydd angen i'r ymgeiswyr gydymffurfio ag agweddau perthnasol ar arweiniad i noddwyr Haen 4 Swyddfa Gartref y DU ac arweiniad y Brifysgol ynghylch derbyn ymgeiswyr Haen 4.

Os oes angen teitheb Haen 4 ar ymgeiswyr i astudio yn y DU, bydd rhaid iddynt dalu blaendal o £2000 cyn i ni ddarparu Cadarnhad Derbyn i Astudio. Y tu allan i'r cyfnod canslo o 14 diwrnod, ni fyddwn yn ad-dalu'r blaendal fel arfer, oni bai y gwrthodir teitheb i astudio amser llawn yn y DU neu os bydd ymgeiswyr yn methu bodloni gofynion mynediad y Brifysgol. Gellir gohirio'r blaendal tan flwyddyn astudio yn y dyfodol. Mae hyn yn unol â pholisi'r Brifysgol ar Flaendaliadau Ffioedd Dysgu, sydd ar gael yn: <http://www.swansea.ac.uk/undergraduate/fees-and-funding/tuition-fees/refunds-policy/>

Mae Haen 4 y System Mewnfudo ar Sail Pwyntiau yn gosod dyletswyddau a rhwymedigaethau ar y Brifysgol. Os bydd gofynion y deitheb yn newid, neu os daw'n amlwg nad yw ymgeisydd yn gymwys am deitheb (er enghraifft, os nad yw'n gallu bodloni gofynion Swyddfa Teithebau a Mewnfudo'r DU o ran dilyniant academaidd neu gredadwyaeth) ar ôl i gynnig gael ei wneud, mae'n bosib y bydd rhaid i'r Brifysgol dynnu'r cynnig o le yn ôl.

Dd. Adborth, apeliadau a chwynion

Gall ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus wrth sicrhau lle yn y Brifysgol ofyn am adborth ar y rhesymau dros wrthod eu cais trwy ysgrifennu at y Detholwr Derbyn ymhen 28 diwrnod i gael eu hysbysu am y penderfyniad. Bydd adborth yn cael ei ddarparu gan gyfeirio at y meini prawf dethol ar gyfer y rhaglen. Gall ymgeiswyr ail-wneud cais yn y flwyddyn ganlynol, ar ôl ystyried yr adborth.

Ymdrechwn i ystyried pob cais mewn modd teg ac effeithiol, yn unol â'n gweithdrefnau. Fodd bynnag, os bydd ymgeisydd yn anfodlon ar ganlyniad neu driniaeth cais, dylai godi ei bryderon gyda'r Swyddfa Derbyn. Os bydd yr ymgeisydd yn dal i boeni ar ôl hyn, gall ddefnyddio'r Weithdrefn Cwynion ac Apeliadau ar gyfer Ymgeiswyr y gellir dod o hyd iddi ar-lein yn:

<https://www.swansea.ac.uk/admissions/complaintsandappeals/>

E. Gwybodaeth ffug neu gamarweiniol

Ni ddylai ymgeiswyr hepgor unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani neu wybodaeth berthnasol, gwneud unrhyw gamliwiad (er enghraifft, trwy lôn-ladrata) na rhoi gwybodaeth ffug ar unrhyw bwynt yn ystod y broses ymgeisio, gan gynnwys ar ôl i gynnig gael ei wneud. Os digwydd hyn, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ganslo cais, tynnu cynnig o le yn ôl ac/neu ddirymu'r cofrestrriad os daw'r wybodaeth i'r amlwg ar ôl dechrau'r tymor. Mae rhagor o fanylion ar gael ar-lein yn:

<http://www.swansea.ac.uk/admissions/inaccurateinformation/>

F. Defnydd y Brifysgol o ddata ymgeiswyr

Bydd yr wybodaeth mewn cais yn cael ei defnyddio'n bennaf at ddibenion prosesu'r cais a chreu cofnod y myfyriwr. Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i wneud adroddiadau statudol i gyrrff megis yr Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch (HESA) hefyd.

Cedwir a phrosesir yr holl ddata yn unol â gofynion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018. Fel rheol, cedwir ceisiadau'n yn gyfrinachol rhwng yr ymgeisydd, y staff priodol yn y Brifysgol ac, yn achos ymgeiswyr rhyngwladol, Gwasanaeth Teithebau a Mewnfudo'r DU y Swyddfa Gartref. Mewn rhai achosion, gellir rhannu data mewn ceisiadau â phartïon allanol, lle datblygwyd rhaglenni ar y cyd â sefydliadau trydydd parti, a lle mae gan staff y tu allan i'r Brifysgol rôl yn y broses dethol a derbyn. Ar ben hynny, er mwyn canfod ac atal twyll, mae gan y Brifysgol hawl i rannu gwybodaeth â sefydliadau allanol, megis yr Heddlu, awdurdodau lleol, cyrff arholi neu ddyfarnu, a'r Adran Gwaith a Phensiynau a'i hasiantaethau.

Mae gwybodaeth lawn am sut mae'r Brifysgol yn casglu ac yn defnyddio data personol darpar fyfyrwyr, ynghyd â'r amserlen gadw, ar gael ar-lein yn:

<https://www.swansea.ac.uk/admissions/applicantdataprivacystatement/>

Mae polisi'r Brifysgol ar ddefnyddio a chadw gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o gofnodion troseddol ar gael ar-lein yn:

<http://www.swansea.ac.uk/admissions/criminalrecordchecks/>

Ff. Cyfrifoldeb ymgeiswyr yn y broses dderbyn

Ff1. Darparu gwybodaeth

Cyfrifoldeb ymgeiswyr yw darparu gwybodaeth lawn a chywir i gefnogi eu cais. Dylai ymgeiswyr hefyd roi gwybod i'r Swyddfa Derbyn yn ddi-oed am unrhyw newidiadau neu gywiriadau i'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cais gwreiddiol.

Ff2 Amodau a Thelerau cynnig

Drwy dderbyn cynnig o le, bydd ymgeiswyr yn ymrwmo i gontract gyda Phrifysgol Abertawe, ar sail yr amodau a thelerau a nodir yn y cynnig ac yn Amodau a Thelerau Prifysgol Abertawe:

www.swansea.ac.uk/admissions

Ff3 Ffioedd a blaendaliadau

Mae myfyrwyr yn gyfrifol am dalu eu ffioedd a'u dyledion eu hunain. Gall y Brifysgol gytuno i gais i anfonebu trydydd parti am unrhyw ffi neu ddyled (er enghraifft y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, Awdurdod Lleol, Cyngor Cyllido neu Noddwr arall). Nid yw hyn yn effeithio ar gyfrifoldeb y myfyriwr am dalu'r ffi neu'r ddyled yn y pen draw.

Mae rhai rhaglenni astudio ôl-raddedig yn gofyn i fyfyrwyr dalu ffioedd "mainc" ychwanegol (h.y. yn gysylltiedig â defnyddio labordy). Os yw hyn yn berthnasol, bydd y ffioedd ychwanegol yn cael eu hamlinellu yn y cynnig derbyn, a byddant yn cael eu talu ar yr un sail â ffioedd dysgu safonol.

Mae'r Brifysgol yn cydymffurfio ag arweiniad y Swyddfa Gartref ar ddsbarthu myfyrwyr fel myfyrwyr "Cartref" neu "Dramor" at ddibenion ffioedd dysgu.

Ar gyfer rhai rhaglenni proffesiynol (e.e. Diploma Ymarfer y Gyfraith a'r Diploma Graddedig yn y Gyfraith), gall y Brifysgol, trwy ymgynghori â'r Ysgol/Coleg dan sylw, godi blaendal na chaiff ei ad-dalu, a gaiff ei ddiwynnu o'r ffioedd dysgu, pan fydd ymgeisydd yn derbyn cynnig lle.

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau Teithebau a Mewnfudo'r DU ar dderbyn Myfyrwyr Rhyngwladol, mae'r Brifysgol yn gofyn i Fyfirwyr Rhyngwladol dalu blaendal na chaiff ei ad-dalu tuag at eu ffioedd dysgu cyn y gellir rhoi iddynt y dogfennau angenrheidiol i'w galluogi i wneud cais am deitheb myfyriwr i ganiatáu iddynt astudio yn y DU. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein yn:

www.swansea.ac.uk/admissions

G. Ymwadiad

Mae'r Brifysgol yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir mewn prosbectysau, llyfrynau ac ar-lein yn ddefnyddiol ac yn gywir ar ddyddiad ei chyhoeddi. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai newidiadau yn angenrheidiol, er enghraifft, i raglenni, lleoliadau astudio, cyfleoedd lleoliad, cyfleusterau neu ffioedd, o ganlyniad i resymau staffio, ariannol, rheoleiddiol ac academaidd dilys. Byddwn bob amser yn ymdrechu i gadw newidiadau i leiafswm ac i hysbysu darpar fyfyrwyr yn briodol. Caiff unrhyw newidiadau i'r wybodaeth mewn prosbectysau ac ar dudalennau gwe rhaglenni ar-lein eu hamlygu bob chwarter yn www.swansea.ac.uk/undergraduate-programme-changes and www.swansea.ac.uk/postgraduate-programme-changes

G1 Tynnu Rhaglenni yn ôl neu Newid Rhaglenni

Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosib y bydd rhaid i'r Brifysgol dynnu rhaglenni yn ôl neu eu gohirio. Ni fydd hyn yn digwydd llai na 5 mis cyn cofrestru. Os caiff eich rhaglen ei thynnu'n ôl, neu os caiff ei helfennau sylfaenol eu newid ar ôl i chi dderbyn eich cynnig, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i chi'n gynnar bod y rhaglen wedi cael ei thynnu'n ôl/ei newid ac i leihau'r effaith drwy gynnig rhaglen arall addas (os oes un ar gael ac os ydych yn bodloni'r meini prawf mynediad); neu bydd yn eich helpu i ddod o hyd i raglen neu brifysgol arall. Yn ogystal, bydd gennych hawl i dynnu'n ôl o'ch rhaglen a gwneud cais am ad-daliad, neu ad-daliad rhannol, unrhyw ffioedd dysgu rydych wedi'u talu.

Crëwyd ym mis Mai 2009

Diweddarwyd ym mis Tachwedd 2018